



At:

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cyngorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd / Aelodau Cyngorau Sir a Chynghorau
Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac
Achub
Clercod Cyngorau Cymuned a Chynghorau Tref

24 Chwefror 2022

Annwyl Gydweithiwr

**Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol Adroddiad Blynyddol
2022/2023**

Amgaeir yr Adroddiad Blynyddol terfynol mewn perthynas â 2022/2023 sy'n weithredol o 1 Ebrill. Fodd bynnag, mae eleni hefyd yn flwyddyn ethol aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref, felly bydd rhai o'r penderfyniadau yn weithredol o 9 Mai ymlaen. Nodir y dyddiadau effeithiol yn yr Adroddiad.

Diolch i'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r Adroddiad drafft a gyhoeddwyd ym mis Medi y llynedd. Mae'r Panel wedi ystyried y safbwyntiau a'r sylwadau a fynegwyd, a chafodd y rhain eu hystyried wrth ddod i'r casgliadau a adlewyrchir yn yr Adroddiad.

Mae'r Panel wedi cadarnhau'r cynnydd yng nghyflogau aelodau etholedig prif gynghorau, gyda chynnydd canlyniadol i aelodau Parciau Cenedlaethol ac

Awdurdodau Tân ac Achub. Yr unig newid sylweddol i'r Adroddiad drafft yw cynnwys adran newydd ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol cynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, bydd y Panel yn cyhoeddi Adroddiad Atodol ar opsiynau yn dilyn trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau EM ynghylch trethiant.

Hoffwn hefyd atgoffa pob awdurdod perthnasol o'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel, yn enwedig cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth i Aelodau (Atodiad 3) a Chyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol (Atodiad 4). Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr awdurdodau nad ydynt wedi gydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Dyma'r Adroddiad terfynol y byddaf yn ymwneud ag ef ar ôl dros 16 mlynedd fel aelod o'r Panel. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad a diolch i'r nifer fawr o aelodau a swyddogion cynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yr wyf wedi gallu ymgysylltu â hwy ar fusnes y Panel.

Yn gywir



John Bader
Cadeirydd